

**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A
CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN YR
YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE
COLWYN, NOS FAWRTH, 15^{FED} MAWRTH 2016 AM 6.30 P.M.**

YN BRESENNOL: Y Maer, Cynghorydd Dr S. Roy
Cynghorydd S. Williams (Is-Gadeirydd)
Cynghorwyr W Bagnall, Mrs G. Baker, Mrs L. Edwards, R.
Foreman, Mrs M. Jones, J. Pearson (Warden Coed).

SWYDDOG(ION): Mrs C J Earley, Clerc y Dref
B. Armstrong-Jones a C. Shilton - Myfyrwyr Ymgynghorol

365/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cymerwyd y Gadair gan yr Is-Gadeirydd.
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr N.
Bastow (Cadeirydd), Mrs L. Griffiths a C. Wood.

366/15 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol
a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd
dim.

367/15 Cofnodion:

*Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar
23^{ain} Chwefror 2016 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.*

368/15 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:

a. Cofnod 451/13(c) – Llochesi Bysus:

Cyflwynodd y Clerc neges e-bost diweddarau gan Gethin George, Cyngor
Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) parthed cynnal a chadw llochesi bysus,
ynghyd a phris am loches newydd ger giatiau Parc Eirias. Fe nodwyd bod
CBSC yn gobeithio penodi contractwr yn fuan i wneud y gwaith
blynyddol arferol o gynnal a chadw'r holl lochesi a byddant yn rhoi
diweddariad ar gostau 2016/17 pan fyddant ar gael. Yn y cyfamser, ni
fydd y cyfraniadau am gynnal a chadw am flwyddyn ariannol 2015/16 yn
cael eu hawlio.

*Penderfynwyd gofyn am fwy o amcan brisiau i roi / gosod lloches
newydd ger Parc Eirias (tua'r dwyrain) a bod y cynlluniau a'r costau yn
cael eu cyflwyno i'r Cyngor Tref cael eu hystyried*

*Fe benderfynwyd ymhellach i argymhell bod un neu ddau o lochesi
newydd (tua'r dwyrain a'r gorllewin) yn cael eu prynu o'r gronfa
llochesi bysus sydd ar ôl gan GBSC (£8,992) yn amodol ar gyflwyno
mwy o amcan brisiau / dyluniadau.*

b. Cofnod 320/15 – Hysbysfyrddau:

Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried:

- i. Cynnig gan 'Mens' Shed' i gynnal a chadw hysbysfyrddau. Bydd hyn yn cynnwys symud yr holl hysbysebion, llyfnu'r pren ac unrhyw waith trwsio ac yna eu hail-baentio.

Penderfynwyd rhoi awdurdod i 'Mens' Shed' gwneud y gwaith yma, gan gadarnhau bod yr hysbysfyrddau i gael eu hail-baentio yn ddu a bod unrhyw gostau yn cael eu had-dalu allan o gronfa dodrefn y stryd.

- ii Cyflwynwyd cynnig gan y Cynghorydd Baker y dylid cytuno ar bolisi parthed: y mathau o hysbysebion i gael eu caniatáu i ymddangos ar hysbysfyrddau cymunedol mynediad agored y Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Baker wrth y Pwyllgor ei bod wedi symud nifer o hysbysebion yn ddiweddar o'r hysbysfwrdd yn Llandrillo yn Rhos oedd yn berthnasol i gwmnïau preifat ac / neu ddigwyddiadau yn cymryd lle mewn mannau eraill (Y Rhyl a Llandudno). Gofynnwyd a ddylid datgan beth yw maint uchaf yr hysbyseb. Dywedodd un aelod bod yr hysbysfwrdd yn Cefn Road (Hen Golwyn) wedi cael ei lanhau'n ddiweddar gydag amlenni plastig A4 i'r hysbysebion. Awgrymodd yr Aelodau byddai ymweliadau / archwiliadau misol yn ddigon i sicrhau bod hysbysebion anaddas neu hen yn cael eu symud.

Penderfynwyd peidio cytuno ar bolisi ffurfiol ar gyfer hysbysebion ond i annog aelodau lleol i ymweld â'u hysbysfyrddau cymunedol yn rheolaidd ac i dacluso / symud hysbysebion fel bo'r angen.

369/15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC i'w ystyried:

- a. Adroddiad ar lafar gan y Clerc am gyfarfod Grŵp Swyddogion Byw yn y Bae a gynhaliwyd ar 14eg Mawrth.
- b. Rheoliadau Traffig Dros Dro:
 - i Hysbysiad am waith Dŵr Cymru yn Ffordd yr Eglwys, Llandrillo yn Rhos.
 - ii Gwahardd parcio yn Ffordd Llewelyn er mwyn i Gymdeithas Tai Gogledd Cymru cael gwneud gwaith brys.
 - iii Hysbysiad am ganiatâd i osod 5 o botiau newydd i blanhigion yn Ffordd yr Orsaf (cafwyd cyllid grant gan Golwyn yn ei Blodau i brynu, gosod a phlannu).

370/15 Cohen y Fferyllydd:

Cyflwynodd y Clerc cais i'w ystyried i adleoli Siop Cohen y Fferyllydd, Ffordd Conwy i'r Ganolfan Feddygol, West End, Bae Colwyn.

Penderfynwyd derbyn y cais a'i nodi.

371/15 Llywodraeth Cymru:

Cyflwynodd y Clerc dogfen ymgynghori i'w ystyried, parthed gwasanaethau Rheilffordd Cymru a'r Gororau, oedd yn cynnwys 21 o gwestiynau ymgynghori yn ymwneud a gwasanaethau rheilffordd. Mynegwyd pryderon am arafwch y gwasanaethau trenau o Fae Colwyn i Fanceinion a Lerpwl a'r angen i wella'r gwasanaethau i'r cyrchfannau hyn ac i Faes Awyr Manceinion.

Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Clerc i ymateb i'r ddogfen ymgynghori gan gynnwys y pwyntiau uchod ac i anfon copi o'r ymateb at Gymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (trwy Gynrychiolwyr y Cyngor Tref) er mwyn ceisio cefnogaeth.

372/15 Caeau'r Canmlwyddiant:

Cyflwynodd y Clerc cynnig i'w ystyried gan y Cyngorydd Hughes, sef dylai Gerddi'r Frenhines cael eu dynodi i fod yn Gae Canmlwyddiant trwy Gaeau mewn Ymddiriedolaeth, er cof am y rhai a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd cyntaf. Fe nodwyd efallai bydd cyllid ar gael i gaeau a ddiogelwyd.

Penderfynwyd argymhell bod y Cyngor yn ysgrifennu at GBSC, fel tirfeddiannwr, i ofyn i Erddi'r Frenhines ym Mae Colwyn cael eu hystyried i gael eu dynodi i fod yn Gae Canmlwyddiant.

373/15 Heneiddio'n Dda yng Nghymru:

Cyflwynodd y Cyngorydd S. Roy adroddiad byr ar lafar yn dilyn ei hymweliad diweddar yn y digwyddiadau yn ymwneud ag:

- a. Cymunedau Cyfeillgar a Dementia (29^{ain} Chwefror)
- b. Oedraniaeth (10^{fed} Mawrth).

Penderfynwyd diolch i'r Cyngorydd Roy am ei hadroddiad.

374/15 Gohebiaeth Arall:

Fe nodwyd bod yr eitem ganlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

- a Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain) a gynhaliwyd ar 9^{fed} Mawrth 2016

375/15 Cynllunio:

- a. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBSC i'w ystyried.

Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

- b. Cyflwynodd y Clerc copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed yn ddiweddar gan GBSC rhwng 15/2/16 a 28/2/16, er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r Penderfyniadau Cynllunio.

- c. Rhoddodd y Cynghorydd Bagnall adroddiad byr ar lafar am ei ymweliad a chyfarfod safle'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 8^{fed} Mawrth.

376/15 Ceisiadau am Drwyddedau:

Cyflwynodd y Clerc hysbysiad am unrhyw geisiadau am drwyddedau ar gyfer ardal Bae Colwyn, er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r hysbysiad diweddaraf am geisiadau.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.35 pm

..... Cadeirydd